Adran Gwaith a Phensiynau

# Cyflwyniad i **Lwfans Gofalwr**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **CA1WER**_0622

# Cynnwys


1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2



**Budd-daliadau cymwys**

Tudalen 6

3




**Pwy all gael Lwfans Gofalwr**

Tudalen 9

4



**Y math o ofal rydych yn ei roi**

Tudalen 11

# Cynnwys

5




Sut y gallai Lwfans Gofalwr effeithio ar fudd-daliadau eraill

Tudalen 13

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Lwfans Gofalwr yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.




Gallech gael Lwfans Gofalwr os:

- Ydych yn gofalu am rywun am o leiaf 35 awr yr wythnos
- Maent yn cael budd-daliadau anabledd penodol.



Nid oes rhaid i'r person rydych yn gofalu amdanynt fod yn berthynas, ac nid oes rhaid i chi fyw gyda nhw.




Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych:

- Am Lwfans Gofalwr
- Pwy gall ei gael
- Sut y mae'n effeithio ar fudd-daliadau eraill.

I gael mwy o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Lwfans Gofalwr, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read Carer's Allowance**.

# 2 Budd-daliadau cymwys




I gael Lwfans Gofalwr, mae'n rhaid i'r person rydych yn gofalu amdanynt gael budd-dal cymwys.

## Mae budd-daliadau cymwys yn golygu:




Elfen bywyd bob dydd Taliad Annibyniaeth Personol (PIP).




Elfen ofal ganol neu uwch Lwfans Byw i'r Anabl.




Lwfans Gweini.




Lwfans Gweini Cyson:

- Ar neu'n uwch na'r uchafswm cyfradd arferol gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
- Ar y gyfradd dyddiol sylfaenol neu lawn gyda Phensiwn Anabledd Rhyfel.



Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.



Os ydych yn byw yn yr Alban:

- Taliad Anabledd Plant ar y gyfradd ganol neu uwch
- Taliad Anabledd Oedolion ar gyfradd gofal safonol neu uwch yr elfen bywyd bob dydd.

# 3 Pwy all gael Lwfans Gofalwr

**Gallwch gael Lwfans Gofalwr os:**




Ydych yn 16 oed neu throsodd.




Ydych yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am y person.



Rydych wedi byw, am o leiaf 2 flynedd o'r 3 blynedd diwethaf:

- Yng Nghymru
- Yn Lloegr
- Yn yr Alban
- Dramor, os yn y lluoedd arfog.

## Ni allwch gael Lwfans Gofalwr os ydych:



Mewn addysg llawn amser neu'n astudio am 21 awr neu fwy'r wythnos.



Yn destun i reolaeth mewnfudo.




Yn ennill dros swm penodol o arian bob wythnos neu fis.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/lwfans-gofalwr](http://www.gov.uk/lwfans-gofalwr)

# 4 Y math o ofal rydych yn ei roi

**35**
**awr**

I gael Lwfans Gofalwr, mae'n rhaid eich bod yn treulio o leiaf 35 awr bob wythnos yn gofalu am rywun.

## Gall y math o ofal rydych yn rhoi i'r person gynnwys:



- Golchi eu dillad neu lestri
- Gwneud a choginio prydiau iddynt.



Mynd â'r person rydych yn gofalu amdanynt i'r:

- Meddyg
- Ysbyty.



Helpu gyda thasgau bob dydd fel:

- Siopa
- Edrych ar ôl arian, biliau a chyfrifon banc.



Nid ydych yn cael Lwfans Gofalwr ychwanegol os ydych yn gofalu am fwy nag 1 person ar yr un pryd.



Os yw rhywun arall yn gofalu am yr un person â chi, **dim ond 1 ohonoch allai gael**:

- Lwfans Gofalwr
- Elfen Ofal Credyd Cynhwysol.

# 5 Sut y gallai Lwfans Gofalwr effeithio ar fudd-daliadau eraill



Pan fyddwch yn cael Lwfans Gofalwr, gall eich taliadau budd-daliadau eraill newid.

Fel arfer, bydd cyfanswm eich budd-daliadau yn cynyddu neu'n aros yr un peth.



Fel arfer, pan gewch Lwfans Gofalwr, bydd y person rydych yn gofalu amdanynt yn stopio cael:

- Premiwm anabledd difrifol wedi'i dalu gyda'u budd-daliadau
- Swm ychwanegol o anabledd difrifol a delir â Chredyd Pensiwn.




Efallai bydd y person rydych yn gofalu amdanynt yn stopio cael lleihad yn eu Treth Gyngor.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch cyngor lleol.

I ddarganfod sut y gallai Lwfans Gofalwr effeithio ar fudd-daliadau eraill, defnyddiwch ein cyfrifiannell digidol ar-lein [www.gov.uk/benefits-calculators](www.gov.uk/benefits-calculators)

## Pensiwn y Wladwriaeth neu Gredyd Pensiwn



Os ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch barhau i gael Lwfans Gofalwr os yw hyn yn fwy na'ch Pensiwn y Wladwriaeth.




Os ydych yn cael Credyd Pensiwn, efallai y gallech hefyd gael Premiwn Gofalwr.

I gael gwybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Gredyd Pensiwn ewch i [www.gov.uk/government/publications/easy-read-pension-credit.cy](www.gov.uk/government/publications/easy-read-pension-credit.cy)

I gael gwybodaeth am Lwfans Gofalwr a Phensiwn y Wladwriaeth ewch i [www.gov.uk/lwfans-gofalwr/cymhwyster](www.gov.uk/lwfans-gofalwr/cymhwyster)